


2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A210390	16-04-2021	Mr S Owen & Miss E Rowbotham	Proposed rural enterprise dwelling to include installation of package treatment plant.	Land at Tynant, Tynreithyn, Tregaron, SY25 6TX	Refuse
2	A210725	26-07-2021	Mrs Carol Deal	Erection of a livestock polytunnel to house livestock comprising of sheep on smallholding.	Tegfan, Llanwenog Llanybydder, SA40 9UT	Approve Subject to Conditions

2.1. A210390



Pwyllgor

Rhif y Cais / Application Reference	A210390
Derbyniwyd / Received	16-04-2021
Y Bwriad / Proposal	Proposed rural enterprise dwelling to include installation of package treatment plant.
Lleoliad Safle / Site Location	Land at Tynant, Tynreithin, Tregaron, SY25 6TX
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr S Owen & Miss E Rowbotham, Penwernhir, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6BL
Asiant / Agent	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan Y Dderwen, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5ED

Y SAFLE A'R HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

Ar hyn o bryd mae safle'r cais yn dir maes glas amaethyddol mewn lleoliad cefn gwlad agored, tua 1.5km i'r dwyrain o grŵp o dai a adwaenir fel Tynreithin, sydd tua 2.5km i'r gogledd o Dregaron. Mae'r safle'n wynebu ffordd sirol, mae'n lefel ac mae'n ffinio â phwll i'r de. Yr eiddo agosaf at y safle yw Tŷ Nant sydd tua 250m i'r gorllewin fel yr hed y frân. Cefn gwlad agored sydd ar hyd ffin y safle ar bob ochr ac eithrio'r ochr ogleddol lle mae adeilad amaethyddol cymharol fach a adeiladwyd yn ddiweddar.

Cyflwynodd yr un ymgeiswyr gais cynllunio'n wreiddiol ar gyfer codi annedd fforddiadwy ac yna annedd menter wledig yn 2020 ond tynnwyd y cais hwn yn ôl. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Ionawr 2021 ar gyfer y sied y cyfeiriwyd ati uchod.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Cyflwynir cais cynllunio llawn ar gyfer codi annedd menter wledig, creu mynediad ar gyfer cerbydau a gosod cyfleuster parod i drin carthion.

Mae'r cynlluniau'n dangos tŷ deulawr cymharol fawr sy'n 13m o hyd ac yn 9.8m yn ei fan mwyaf llydan, ac mae'r ôl troed allanol yn 117m². Y bwriad yw y bydd yr adeilad yn cynnwys pedair ystafell wely a bydd yn cael ei adeiladu a'i orffen yn rhannol gyda cherrig naturiol ac yn rhannol â rendrad.

Maint y plot ei hun yw 65m x 30m ac mae'r eiddo wedi'i leoli hanner ffordd i lawr y plot a cheir mynediad ato ar hyd dreif hir cyn ymuno â'r ffordd sirol. Darperir man parcio a throi yn nhu blaen yr eiddo tra bod gweddill y plot yn fan amwynder.

Ar hyn o bryd mae safle'r cais yn rhan o ddarn 63 erw o dir amaethyddol sydd dan berchnogaeth rhieni un o'r ymgeiswyr. Mae'r ymgeiswyr yn byw ar hyn o bryd gyda'u rhieni mewn daliadau amaethyddol ym Mhontrhydfendigaid a Thregaron. Mae Mr Owens (yr ymgeisydd) yn gweithio fel ffermwr hunangyflogedig ar fferm y teulu ac mae hefyd yn is-gontractio i ffermydd eraill yn yr ardal.

Cyflwynir y cais ar y sail fod angen annedd amaethyddol ar gyfer gweithiwr amaethyddol. Sail y cais yw bod yr ymgeisydd mewn partneriaeth busnes gyda'i rieni ac yn gweithio'n bennaf o ddaliad amaethyddol sydd dan berchnogaeth y Cyngor sef Y Bryn, sydd i'r dwyrain o Dregaron a thua 2.4km (fel yr hed y frân) o safle'r cais. Mae fferm y Cyngor yn ddaliad 65 erw (sydd wedi'i rentu ar denantiaeth oes) ac mae 75 erw ychwanegol hefyd yn cael eu rhentu (ar gytundebau blynyddol) mewn dau floc o fewn 5 milltir i fferm Y Bryn. Y brif fenter yw gwartheg godro a chedwir defaid tac yn ystod y gaeaf. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r cais yn cadarnhau bod y busnes yn ffermio cyfanswm o 155 o wartheg a 430 o ddefaid. Yn sgil ychwanegu rhagor o dir rhent yn safle'r cais, bwriedir cael 40 yn fwy o wartheg a 170 yn fwy o ddefaid yn y lleoliad hwnnw.

Y CANLLAWIAU A'R POLISIÂU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae polisiâu canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth ystyried y cais hwn:

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM10 Dylunio a Thirweddu

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

S01 Twf Cynaliadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn o fewn ei ardal, a'r angen i gymryd pob cam rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn y lefelau trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebwr gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol ar bobl sydd â nodwedd warchoddedig, o'u cymharu ag unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bryderon sylweddol ynghylch y cais ac maent yn cynghori y dylid rhoi caniatâd dim ond os ceir cadarnhad y bwriedir cadw'r ffos agored bresennol wrth ochr y ffordd er mwyn diogelu cynefin posib ar gyfer dyfrgwn. Dylid gosod amodau ynghylch hyn a hefyd ynghylch y trefniadau goleuo ac ailosod y cloddiau.

Nid oedd CC Llangeitho yn gwrthwynebu'r cynnig, ar yr amod bod y tir a'r annedd dan sylw'n cael eu clymu fel un uned.

Draenio Tir Ceredigion – Dim sylwadau negyddol ynghylch y cynnig.

Priffyrdd Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn ddiybnnol ar amodau.

Dŵr Cymru – Dim sylwadau.

Derbyniwyd sylwadau gan un trydydd parti, sef CPRW, a oedd yn gwrthwynebu'r cais ar y sail nad oes tystiolaeth wedi'i chyhoeddi i ddangos fod yna fenter wledig gynaliadwy sy'n bodloni amodau paragraff 4.6 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: mae 63 erw o dir yn hanner maint y daliad amaethyddol cyffredin yng Nghymru, ac mae'r drefn o ran cymorthdaliadau ar gyfer y dyfodol yn ansicr iawn. Pe roddir caniatâd cynllunio, byddai'n enghraifft arall o ddatblygiad preswyl ar dir maes glas amaethyddol – a hynny ar safle anghysbell, agored ac amlwg sy'n anaddas iawn ar gyfer annedd.

CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

Fel y nodwyd eisoes, mae safle'r cais mewn lleoliad cefn gwlad agored ac mae'r eiddo preswyl agosaf tua 250m i ffwrdd.

Felly, y polisi sy'n allweddol wrth ystyried y cais hwn yw Polisi S04 sy'n delio â chynigion datblygu mewn 'aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill'. Mae'r polisi'n ystyried Polisi Cynllunio Cymru sy'n nodi y dylid lleoli datblygiadau yng nghefn gwlad o fewn a gerllaw'r aneddiadau lle gellir eu lleoli orau o ran seilwaith, mynediad, gwarchod cynefinoedd a gwarchod y dirwedd. Nodir hefyd y gall mewnlenni neu estyniadau bach i aneddiadau cyfredol fod yn dderbyniol, yn enwedig os yw'n diwallu angen lleol am dai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yn gaeth mewn cefn gwlad agored nad yw ger aneddiadau cyfredol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu.

Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio rheoli ymlediad datblygiadau preswyl mewn 'lleoliadau eraill' drwy

ganiatáu anheddau newydd dim ond lle y bo angen y gellir ei gyfiawnhau o ran menter wledig neu lle y bo angen y datblygiad i gyflawni angen heb ei ddiwallu am dai fforddiadwy.

Mae'r cais yn gofyn am annedd ar gyfer menter wledig newydd a dylid ei ystyried o safbwynt Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6.

O ran Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:-

- a. tystiolaeth amlwg o fwriad cadarn a gallu i ddatblygu'r fenter wledig dan sylw (mae buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau ac offer newydd yn aml yn arwydd da o fwriad);
- b. tystiolaeth amlwg bod angen sefydlu'r fenter newydd yn y lleoliad arfaethedig ac na ellir ei lleoli ar safle addas arall lle mae annedd yn fwy tebygol o fod ar gael;
- c. tystiolaeth amlwg bod y fenter arfaethedig wedi'i chynllunio ar sail ariannol gadarn;
- d. bod angen swyddogaethol clir am weithiwr *amser llawn*, nid rhan-amser;
- e. ni ellid bodloni'r angen swyddogaethol gan annedd arall neu drwy drosi adeilad addas sydd eisoes ar safle'r fenter, nac unrhyw lety arall sy'n bodoli yn yr ardal sy'n addas ac sydd ar gael i'r gweithwyr dan sylw ei feddiannu; a
- f. bod gofynion cynllunio arferol eraill, er enghraifft lleoliad a mynediad, wedi'u bodloni.

Maen prawf a – Rhaid bod angen swyddogaethol clir ar gyfer cael gweithiwr i fyw ar y safle.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd, noder bod y fenter ffermio wedi'i gwasgaru ar draws sawl lleoliad amrywiol sy'n cael eu rhentu yn ardal Tregaron, ac mae'r ymgeisydd hefyd yn cadw gwartheg ar ddaliad yn Llanybydder. Mae'r prif ddaliad yn Y Bryn, y tu allan i Dregaron, lle mae 65 erw yn cael eu ffermio. Yn ddiweddar mae'r ymgeisydd wedi cael gafael ar 63 erw (26ha) yn safle'r cais yn Nhŷ Nant, Llangeitho ac mae wedi adeiladu sied amaethyddol yn y lleoliad yn ddiweddar. Bwriad yr ymgeisydd yw symud y gwartheg sydd yn Llanybydder ar hyn o bryd i'r safleoedd yn ardal Tregaron gan gynnwys y safle yn Nhŷ Nant ac mae hefyd yn bwriadu cynyddu nifer y defaid sydd ar y safle.

Gan fod y busnes presennol yn seiliedig ar unedau rhent a bod y rheiny wedi'u lleoli cryn bellter o safle'r cais, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn credu y gellir ond rhoi ystyriaeth i deilyngdod y darn penodol hwn o dir. Fel y nodwyd, nid oes nifer fawr o dda byw yn y safle penodol hwn, a hyd yn oed pe bai'r niferoedd yn cynyddu i'r ffigwr arfaethedig byddai'r sied a'r tir yn cael eu defnyddio ar gyfer pori yn bennaf ac nid ar gyfer godro. Gan mai dyma yw'r sefyllfa, ni fyddai angen swyddogaethol ar gyfer cael gweithiwr amser llawn yn y lleoliad penodol hwn.

Maen prawf b: Rhaid i'r angen swyddogaethol ymwneud â gweithiwr amser llawn.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn nodi'r oriau gwaith yn Y Bryn a'r ddau safle arall sydd wedi'u lleoli y tu allan i Dregaron. Mae'r manylion a ddarparwyd yn nodi bod angen 2.5 aelod o staff ar hyn o bryd, yn seiliedig yn bennaf ar gyfanswm o 585 o dda byw sy'n gyfystyr â 5,510 awr o waith.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar y 63 erw yn y safle hwn a'r ffaith y byddai cynnydd o 210 anifail ychwanegol yn unig, credir na fyddai cyfiawnhad digonol dros gael gweithiwr amser llawn yn y lleoliad penodol hwn.

Maen prawf c: Rhaid i'r fenter dan sylw fod wedi'i sefydlu ers o leiaf tair blynedd, wedi gwneud elw yn ystod un ohonynt o leiaf, a bod y fenter a'r busnes sydd â'r angen am y swydd yn ariannol gadarn ar hyn o bryd a bod yna ragolwg clir y byddant yn parhau felly.

Darparwyd gwybodaeth ynghylch sefyllfa'r busnes presennol yn Y Bryn a'r ddau ddarn arall o dir, fodd bynnag nid ydy'r busnes ar safle'r cais fel uned annibynnol wedi'i sefydlu eto.

Maen prawf d: Rhaid i'r cais ddangos na ellid bodloni'r angen swyddogaethol gan annedd arall na thrwy drosi adeilad addas sydd eisoes ar safle'r fenter, nac unrhyw lety arall sy'n bodoli yn yr ardal sy'n addas ac sydd ar gael i'r gweithwyr dan sylw ei feddiannu.

Nid oes anheddau cysylltiedig ar gael ar y safle na gerllaw. Er y bu'r eiddo a elwir yn Nhŷ Nant o dan berchnogaeth teulu'r ymgeisydd, nid yw hynny'n wir erbyn hyn. Fodd bynnag, mae anheddau yn gysylltiedig â'r busnes presennol yn Y Bryn ac mae perchnogion y safle yn Nhŷ Nant yn byw ym Mhontrhydfendigaid ar hyn o bryd.

Maen prawf e – Rhaid i'r datblygiad arfaethedig fodloni'r gofynion cynllunio arferol o ran lleoliad, dyluniad, mynediad, ecoleg, y dirwedd ac ati.

Mae'r cynlluniau'n dangos y bwriedir adeiladu tŷ mawr gyda phedair ystafell wely, ac yn seiliedig ar faint yr uned amaethyddol yn Nhŷ Nant ni fyddai'n gymesur o gwbl â maint y daliad.

Byddai darparu annedd sengl, fawr mewn lleoliad sy'n weddol amlwg a hynny yn bell o unrhyw adeiladau cyfagos, yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal ac yn ychwanegiad anghyson i'r dirwedd.

f. Bod gofynion cynllunio arferol eraill, e.e. lleoliad a mynediad, wedi'u bodloni.

Nid oes gwrthwynebiadau penodol yn hyn o beth. Er bod yr ymatebion ymgynghori wedi'u nodi, gan gynnwys yr angen i osod amodau yn unol â sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Adran Priffyrdd, nid yw hyn yn gwrthbwysu'r ffaith y gwrthwynebir y cais o safbwynt polisi cynllunio.

Ffactor allweddol arall o ran egwyddor y datblygiad yw'r ffaith nad ydy'r ymgeisydd yn berchen ar unrhyw un o'r safleoedd na'r tir. Mae'r holl safleoedd y cyfeirir atynt yn y ddogfennaeth ategol yn rhai sy'n cael eu rhentu gan yr ymgeisydd, naill ai ar sail tenantiaeth oes, tenantiaeth busnes fferm neu gytundeb blyneddol. Byddai Ceredigion yn disgwyl i unrhyw anheddau newydd a gyfiawnheir ar ddaliadau amaethyddol gael eu clymu â'r tir er mwyn sicrhau bod yr anheddau'n cael eu meddiannu a'u defnyddio ar gyfer yr angen penodol hwnnw. Gwneir hynny drwy gytundeb Adran 106 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a byddai'n orfodol i'r holl dirfeddianwyr perthnasol fod yn rhan o'r cytundeb.

Gan mai tenantiaid yn unig yw'r ymgeiswyr yng nghyd-destun y tir hwn (a'r tir arall sy'n gysylltiedig), byddai gofyn am gwblhau cytundeb Adran 106 yn anodd yn y sefyllfa hon a byddai'n rheswm arall dros beidio â chefnogi'r cais fel y mae ar hyn o bryd.

I gloi, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros gefnogi adeiladu annedd mewn lleoliad sydd ar safle maes glas a hynny y tu hwnt i unrhyw anheddiad neu ffurf adeiledig. Mae'r cynnig yn mynd yn groes i bolisiau S01 a S04 y Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6.

ARGYMHELLIAD:

Dylid GWRTHOD y cais gan ei fod yn mynd yn groes i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 a pholisiau S01 a S04 y Cynllun Datblygu Lleol.

Pwyllgor / Committee

Rhif y Cais / Application Reference	A210390
Derbyniwyd / Received	16-04-2021
Y Bwriad / Proposal	Proposed rural enterprise dwelling to include installation of package treatment plant.
Lleoliad Safle / Site Location	Land at Tynant, Tynreithin, Tregaron, SY25 6TX
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr S Owen & Miss E Rowbotham, Penwernhir, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6BL
Asiant / Agent	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan Y Dderwen, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5ED

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is currently greenfield agricultural land in an open countryside location approx 1.5km to the east of the group of houses known as Tynreithin which is some 2.5km to the north of Tregaron. The site fronts onto a County road, is level and adjoins a pond to its south. The nearest neighbouring property of Tŷ Nant is found approx 250m to the west as the crow flies. The site is bordered on all sides by open countryside apart from the northern side which is characterised by a modest sized recently constructed agricultural building.

A planning application initially for the erection of an affordable dwelling and then a rural enterprise dwelling by the same applicants was submitted in 2020 but subsequently withdrawn. Planning permission was granted to the above mentioned shed in January 2021.

DETAILS OF DEVELOPMENT

The application is submitted in full for the erection of a rural enterprise dwelling, vehicular access and the installation of a package treatment plant.

The plans show the provision of a fairly large two storey house being 13m long and 9.8m at its widest with an external footprint of 117m². The building looks to accommodate four bedrooms and is to be constructed and finished with part natural stone / part render.

The plot itself measures 65m x 30m and the property is located half way down the plot and accessed via a long drive before meeting up with the County road. Parking and turning area is provided to the front of the property whilst the remainder of the plot is made up of amenity space.

The application site is currently part of a parcel of agricultural land totalling approx 63 acres in the ownership of the one of the applicants parents. The applicants currently live with their parents on agricultural holdings in Pontrhydfendigaid and Tregaron respectively. Mr Owens (the applicant) works as a self employed farmer working on the family farm and also sub contracts to other farms in the area.

The application is submitted on the basis of a need for an agricultural dwelling to house an agricultural worker. The basis of the application is that the applicant is in a business partnership with his parents and operating mainly from the Council owned agricultural holding of Y Bryn which is to the east of Tregaron and approx 2.4km (as the crow flies) to the application site. The Council owned farm is a 65 acre holding (rented on a lifetime tenancy) and an additional 75 acres is also rented (on annual agreements) in two blocks within 5 miles of Y Bryn. The main enterprise is dairy cattle, and tack sheep are kept during the winter. Information provided in support of the application confirms that the business farm in total 155 cattle and 430 sheep. The recent addition of further rented land at the application site means that it is intended to increase cattle numbers by 40 and sheep by 170 at that location.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

DM06 High Quality Design and Placemaking

DM10 Design and Landscaping

DM13 Sustainable Drainage Systems

DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

DM15 Local Biodiversity Conservation

DM17 General Landscape

S01 Sustainable Growth

S04 Development in Linked Settlements and Other Locations

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

NRW have significant concerns with the application and advise that permission should only be granted upon confirmation of the retention of the existing open roadside ditch in order to protect potential otter habitat. Conditions should be imposed to that effect and also in relation to lighting arrangements and replacement of hedgerow.

CC Llangeitho CC do not object the proposal subject to the proposed land and dwelling are tied as one unit.

Ceredigion Land Drainage - No adverse comments to proposal.

Ceredigion Highways - No objection STC

DC/WW - No observations.

One third party representation from CPRW objecting the application on grounds that there is no published evidence of a sustainable rural enterprise that meets the conditions of TAN 6, para 4.6: 63 acres of accommodation land is half the size of the average Welsh agricultural holding, and the future subsidy regime is very uncertain. If granted, this would be yet one

more example of residential development on greenfield agricultural land — and on an isolated, exposed & prominent site very inappropriate for a dwelling.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: “If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise”.

As stated, the application site is in an open countryside location and some 250m to the nearest residential property. As such the key policy relating to the consideration of this application is S04 which deals with development proposals in ‘linked settlements and other locations’. The policy takes account of Planning Policy Wales in that development in the should be located within and adjoining those settlements where it can be best be accommodated in terms of infrastructure, access and habitat and landscape conservation. Infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable, in particular where it meets a local need for affordable housing, but new building in the open countryside away from existing settlements or areas allocated for development in development plans must continue to be strictly controlled.

Policy S04 of the LDP seeks to control the proliferation of residential development in ‘other locations’ permitting new dwellings only where there is a justifiable rural enterprise need or is required on unmet affordable need basis.

The application is for a dwelling on a new rural enterprise to be considered under TAN6.

In terms of TAN 6 the following criteria must be met:-

- a. clear evidence of a firm intention and ability to develop the rural enterprise concerned (significant investment in new buildings and equipment is often a good indication of intentions);
- b. clear evidence that the new enterprise needs to be established at the proposed location and that it cannot be accommodated at another suitable site where a dwelling is likely to be available;
- c. clear evidence that the proposed enterprise has been planned on a sound financial basis;
- d. there is a clearly established functional need and that need relates to a full-time worker, and does not relate to a part-time requirement;
- e. the functional need could not be fulfilled by another dwelling or by converting an existing suitable building on the enterprise, or any other existing accommodation in the locality which is suitable and available for occupation by the workers concerned; and
- f. other normal planning requirements, for example siting and access, are satisfied.

Criterion a - there must be a clear established functional need for a worker to be living on site.

Based on information submitted it is noted that the farming enterprise is scattered in various rented locations in the Tregaron area and also the applicant keeps cattle on a holding at Llanybydder. The main holding is located at Y Bryn on the outskirts of Tregaron where 65 acres in farmed. The applicant has recently acquired 63 acres (26 ha) at the application site at Tŷ Nant, Llangeitho and has recently constructed an agricultural shed at the location. It is the applicants intention to relocate the cattle currently resident at Llanybydder to the sites in the Tregaron area including the site at Tŷ Nant and increase the number of sheep on the site.

Given that the existing business are based on rental units and are located some distance from the application site then it is the opinion of the LPA that consideration can only be given to the merits of this particular parcel of land. As noted, there is not a high number of livestock at this particular site and even if the numbers are to be increased to the proposed figure the shed and land would primarily be used for grazing purposes and not for milking purposes. As that is the case then there would be no functional need for full time presence at this particular location.

Criterion b: The functional need must relate to a full-time worker

Information submitted with the application base the relevant man hours at Y Bryn and the two other satellite sites located outside Tregaron. The details provided indicate that currently and based primarily on a total of 585 of livestock that equates to 5,510 man hours which suggest a need for 2.5 members of staff.

However, based on the 63 acres at this site and the fact that there would only be an increase of 210 additional animals it is considered that there would not be sufficient justification to warrant a full time worker at this particular location.

Criterion c: requires the enterprise concerned to be established for at least three years, profitable for at least one of them and both the enterprise and the business need for the job, is currently financially sound, and has a clear prospect of remaining so.

Information has been provided detailing the position in relation to the existing business at Y Bryn and the other two parcels of land, however the business at the application site as an independent unit is yet to be established.

Criterion d: The application must demonstrate that the functional need could not be fulfilled by another dwelling or by converting an existing suitable building, or any other existing accommodation in the locality which is suitable and available for occupation by the worker.

There are no associated dwellings on the site or nearby which are available. Whilst the property of Tŷ Nant was formerly in the ownership of one of the applicant's family it no longer is. Notwithstanding there are farm dwellings associated with the existing business at Y Bryn and the landowners of the site at Tŷ Nant currently reside at Ponrhydfendigaid.

Criterion e - requires the proposed development to satisfy the usual planning requirements in terms of siting, design, access, ecology, landscape and so forth.

The plans show the provision of a large four bedroomed house and based on the size of the agricultural unit at Tŷ Nant would not be at all commensurate with the size of the holding.

The provision of a single, large dwelling in a fairly prominent location detached from any nearby buildings will detrimentally impact the character of the area, constituting an incongruous addition on the landscape.

f. other normal planning requirements, for example siting and access, are satisfied.

There are no objections in this particular regard. Whilst consultee responses are noted including the requirement for the imposition of conditions required by NRW and the Highways Department it does not outweigh the policy objection to the application.

Other key factor in relation to the principle of development would be the fact that none of the land and sites are owned by the applicant is a key factor. All the sites referred to in the supporting documentation are under rent by the applicant either on a lifetime tenancy, a farm business tenancy or on an annual agreement. Ceredigion would expect any new dwelling justified on agricultural holdings to be tied to the land and vice versa in order to ensure that the dwellings are occupied / and utilised in association with that specific need through a S106 agreement under the Town and Country Planning Act 1990 which would require all relevant landowners to be party to the agreement.

As the applicants are only tenants of this land (and other associated land) requiring the completion of a S106 agreement would be difficult in this scenario and would be another reason not to support the application as it stands.

In conclusion, there is no justification for supporting a dwelling in such a location on a greenfield site outside of any settlement or built form. The proposal is contrary to policies S01 and S04 of the LDP and TAN6.

RECOMMENDATION:

REFUSE the application as being contrary to TAN6; and policies S01 and S04 of the LDP.

2.2. A210725



Rhif y Cais	A210725
Derbyniwyd	26-07-2021
Y Bwriad	Codi twnel polythen ar dyddyn i gartrefu da byw, gan gynnwys defaid.
Lleoliad Safle	Tegfan, Llanwenog Llanybydder, SA40 9UT
Math o Gais	Cais Cynllunio Llawn
Ymgeisydd	Mrs Carol Deal, Tegfan, Llanwenog Llanybydder, SA40 9UT
Asiant	

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at dyddyn wedi'i leoli ar hyd yr A475 i'r gorllewin o Dre-fach ac i'r gogledd o Lanwenog. Mae'r safle'n cynnwys annedd ddeulawr a'i thalcen yn cyffinio â'r ffordd, tŷ allan sengl i gefn yr annedd a chae cyffiniol sy'n cael ei ddefnyddio gan yr ymgeisydd ar hyn o bryd i gadw da byw gan gynnwys moch, ieir, diadell fechan o ddefaid ynghyd â thai cysylltiedig. Ceir mynediad i'r safle yn uniongyrchol o'r ffordd i'r gogledd-orllewin o'r annedd.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 14-08-1984 ar gyfer mynediad i'r cae, a ddefnyddir yn ogystal yn fynediad i'r annedd (840345). Nid oes hanes cynllunio perthnasol arall.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio i godi twnel polythen i'w leoli yn y cae sy'n cyffinio â'r annedd ac sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gadw da byw. Lleolir y twnel polythen yn rhan dde-orllewinol y cae, i ffwrdd o'r ffin â'r briffordd. Bydd y twnel polythen yn 22 metr o hyd, 9 metr o led a 3.9 metr o uchder ac yn cynnwys ffrâm ddu a chladin PVC gwyrd 600gm, gyda sribed integredig lled dryloyw ar frig y bwa i gael golau naturiol. Bydd y twnel polythen yn cael ei sodro i'r ddaear drwy roi angor ddwbl ym mhen pob cylch, ar ddyfnder o 1 metr. Gosodir angorau sengl ar ddyfnder o 0.5 metr ar bob pen o'r talcenni ac angorir sadiwr ychwanegol ar ddyfnder o 0.8 metr ar y 'pod' rhychwant sengl. Bydd ffens o rwyllwaith ar gyfer da byw, 1.5 metr o uchder, yn amgylchynu'r twnel polythen.

Mae'r cais yn nodi y bydd y twnel polythen yn cael ei ddefnyddio fel sied wyna ar gyfer y 25 o ddefaid sydd yno'n barod, a hynny ond am gyfnod o ychydig wythnosau adeg geni'r ŵyn. Fel arall, yr unig adeg y byddai'r defaid yn cael eu caretrefu yn y twnel polythen fyddai oherwydd yr angen am warchodaeth ychwanegol rhag amodau tywydd eithafol neu ofal milfeddygol. Cynigiwyd yn y lle cyntaf bod y twnel polythen yn cael ei ddefnyddio i gartrefu'r 45 iâr ar y safle petai fflw adar yn digwydd taro'r DU unwaith eto, a bod gofyn cadw'r adar dan orchudd i'w gwarchod rhag cyswllt ag adar gwyllt. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi'n hysbysu ers hynny na fydd y twnel polythen yn angenrheidiol ar gyfer yr ieir bellach gan ei bod wedi cael cartref newydd ar gyfer yr ieir yn ddiweddar.

Mae'r ymgeisydd wedi'n hysbysu na fydd newid yn lefelau'r safle.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisi Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

Polisi Cynllunio Lleol Perthnasol:

Mae'r polisiau a ganlyn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn:

- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM18: Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol
- SO4: Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'

Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig Perthnasol:

- Canllawiau Cynllunio Atodol Ardal Tirwedd Arbennig Ebrill 2014
- Canllawiau Cynllunio Atodol Gwarchod Natur 2015

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig' sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebwr gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

DEDDF LLESIAENT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth ymarfer ei swyddogaethau i gwrdd â'r saith nod llesiant sy'n rhan o'r Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION I'R YMGYNGHORI

- **Cyngor Cymuned Llanwenog Community Council** - Gwrthwynebu am y rhesymau a ganlyn
 - Llygredd posib gan ddŵr ffo o elifion gwastraff moch a ieir i'r Cwrs Dŵr Cyfredol sy'n llifo i ffynnon, sef unig ffynhonnell ddŵr eiddo cyfagos
 - Mae'r ffurflen yn nodi y bydd y dŵr ffo yn mynd i'r cwrs dŵr presennol.
 - Potensial i gadw 600 o ieir mewn twnel polythen o'r math hwn - ond ni ddarperir manylion
 - Dim gwrthwynebiad i'r effaith weledol, dim ond ar agweddau amgylcheddol y cynnig.
- **Priffyrdd** - Pryderon
- **Draenio Tir** - Mwy o wybodaeth yn angenrheidiol
- **Ecoleg** - Dim gwrthwynebiad
- **Iechyd yr Amgylchedd** - Dim gwrthwynebiad, ond pryderon os yw nifer y da byw yn cynyddu ar y safle.

